



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru

**Croesffyrdd
Uned 3
96 Queen Victoria Road
Llanelli
SA15 2TH**

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/10/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20 Ionawr, 2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru yn wasanaeth gofal amgen sy'n darparu gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain gan staff gofal ymroddedig, llawn cymhelliant. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a chânt eu trin ag urddas a pharch. Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal diogel a phroffesiynol, ac maent wedi meithrin cydberthnasau effeithiol â nhw. Mae'r tîm rheoli yn hygyrch i'r bobl a chaiff y gwasanaeth ei werthfawrogi gan y rhai hynny sy'n ei ddefnyddio.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli'r gwasanaeth ar waith Nodwyd meysydd i'w gwella o ran y trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu ansawdd y gofal. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r meysydd hyn.

Llesiant

Roedd y bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y ffordd y caiff y gofal ei ddarparu gan y staff gofal yn y gwasanaeth. Dywedodd aelod o deulu unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym am yr effaith ddwys y mae'r gwasanaeth wedi ei chael arnynt; "*Heb law amdany'n nhw, fydda i ddim 'ma heddiw. Pobl sbecial iawn. Maen nhw ffaelle wneud mwy. Dwi'n temlo bod nhw wedi cael eu hanfon.*"

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ac maent yn derbyn cymorth priodol, caredig a gofalgar gan staff gofal y maent yn eu hadnabod. Mae'r staff yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl. Dywedodd yr unigolion a'u cynrychiolwyr wrthym fod y staff gofal yn treulio amser yn dod i adnabod y bobl ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Dywedodd aelod o deulu unigolyn wrthym, "*They have a good relationship...Everything is working as it should be. They are accommodating.*"

Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a gwrandewir arnynt. Mae'r bobl yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol ag aelodau cyson a phrofiadol o staff, a chaiff hyn ei werthfawrogi gan y gwasanaeth. Gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg, ag aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r bobl yn rhan o'r broses o gynllunio'r gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r gwasanaeth yn gofyn am adborth rheolaidd am y gwasanaeth gan y bobl a'u cynrychiolwyr ac yn ei ddefnyddio er mwyn gwella. Dywedodd cynrychiolydd o deulu unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, "*Maen nhw'n dda. Maen nhw'n gwrando.*" Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, "*The management put people first, second and third.*"

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn. Maent yn cael gofal a chymorth gan staff gofal sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel, ac sy'n cael eu cefnogi'n dda. Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed gan staff proffesiynol sy'n gwybod sut i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn ac maent yn hyderus y bydd y gwasanaeth yn ymateb. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar gymorth gan ystod eang o wasanaethau cymorth ychwanegol yn gyflym drwy ddarparu'r y gwasanaeth.

Ni chaiff gofal a chymorth y bobl eu goruchwylio'n gadarn bob amser. Nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r gwasanaeth bob amser yn effeithiol wrth nodi'r meysydd yn y gwasanaeth y mae angen eu gwella.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y gwasanaeth. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym; *“Maen nhw'n sbecial iawn. Maen nhw'n garedig ac yn helpu.”* Mae'r broses ar gyfer derbyn pobl newydd i mewn i'r gwasanaeth wedi ei chynllunio'n dda. Mae'r cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn cynnwys gwybodaeth fel dewisiadau personol, asesiadau risg, a chynlluniau manwl ar sut y dylid darparu'r gofal a'r cymorth. Mae'r gwasanaeth wrthi'n rhoi system cynllunio gofal ddigidol ar waith, er mwyn cryfhau'r broses ar gyfer adolygu'r cynlluniau personol. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal. Mae cynlluniau personol y bobl yn rhoi cyfarwyddyd i'r staff er mwyn iddynt ddarparu gofal a chymorth mewn ffordd gyson. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym *“Never had cause to complain. They treat me well.”*

Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth unigol i'r bobl fel y nodir yn eu cynlluniau personol. Mae'r staff gofal yn wybodus am y bobl y maent yn gofalu amdanynt ac yn ymdrin â nhw mewn ffordd empathetig ac amyneddgar. Dywedodd cynrychiolydd teulu wrthym fod y staff gofal yn gwybod sut i roi gofal mewn modd sydd wedi'i bersonoli, a'u bod yn cael effaith gadarnhaol; *“They are lifesavers to be honest.”*

Caiff iechyd corfforol a llesiant y bobl eu hybu. Mae'r cynlluniau personol yn dangos bod y bobl yn cael cymorth i gysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r gwasanaeth yn deall cyflyrau iechyd y bobl, y gofal sydd ei angen arnynt ac yn gallu adnabod newidiadau o ran golwg ac ymddygiad arferol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae trefniadau ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cael hyfforddiant diogelu a chwythu'r chwiban priodol sy'n eu helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut i roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â diogelu. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau clir. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth yn ymdrin â materion sy'n codi a allai effeithio ar ofal a chymorth y bobl yn gyflym ac yn briodol.

Mae'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn dda. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cael hyfforddiant priodol ar reoli heintiau. Dywedodd y bobl a'u cynrychiolwyr wrthym fod y staff gofal yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol (PPE) perthnasol a'u bod yn teimlo'n ddiogel.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rhoddir gwybodaeth gywir i'r bobl am y gwasanaeth. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael sy'n rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu perthnasau ac eraill. Ceir datganiad o ddiben sy'n disgrifio sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn gwneud yn siŵr bod y bobl yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth, ac yn chwilio am ffyrdd i wella. Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth weithdrefnau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan y bobl a'r staff gofal, er mwyn llywio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Gwelsom dystiolaeth o drefniadau sicrhau ansawdd, er nad oedd y trefniadau hyn yn helpu darparwr y gwasanaeth i nodi pob maes gwan y mae angen ei wella. Ni chawsom gopi o'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal, sy'n darparu argymhellion ar gyfer gwella a datblygu'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater hwn yn ein harolygiad nesaf.

Mae rheolwr y gwasanaeth yn brofiadol, yn meddu ar gymwysterau addas, ac wedi'i gofrestru'n briodol â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol. Caiff y rheolwr ei gefnogi gan dîm o staff sy'n helpu i redeg y cartref o ddydd i ddydd. Mae'r tîm rheoli mewn cysylltiad rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol. Maent yn adnabod y bobl yn dda ac yn dangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da. Dywedwyd wrthym fod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yno bob amser i helpu neu gynghori'r staff gofal pan fo angen. Gwnaethom nodi hefyd ymrwymiad y gwasanaeth i lesiant ei staff. Dywedodd aelod o staff gofal wrthym “*We feel valued and they are protective of our wellbeing.*”

Gwnaethom adolygu rota staffio'r gwasanaeth a gwelsom fod niferoedd digonol o staff gofal ar gael yn y gwasanaeth i roi gofal a chymorth. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar waith ac yn gyfredol. Mae cofnodion recriwtio'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal wedi'u cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae aelodau newydd o staff gofal yn cwblhau rhaglen sefydlu drylwyr sy'n cynnwys hyfforddiant, shifftiau cysgodi, gwiriadau cymhwysedd staff a chyflwyniadau i bolisiâu a gweithdrefnau. Mae amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant ar gael i'r staff gofal, a dangosodd yr holl ffeiliau staff a welsom fod y staff wedi cwblhau lefel dda o hyfforddiant.

Mae'r staff gofal yn cael cymorth un i un, drwy sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol. Mae'r tîm rheoli yn cynnig cymorth i'r staff gofal yn ddyddiol ac yn cynnal hapwiriadau sicrhau ansawdd. Dywedodd aelod o'r staff gofal wrthym, *“The communication with the office is great...I don't wait for supervision, we talk all the time if there is something. Feel really supported.”*

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
8	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.	Newydd
80	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod trefniadau addas ar waith i greu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella'r gwasanaeth.	Newydd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 22/11/2023